**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion **Panel Gweithredol** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 12 Rhagfyr 2022 yn rhithiol dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 14.00 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. Carol Beard | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. Chrissy Gee | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. Alan Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. Chris Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. Paul Rogers | Cyngor Sir Wrecsam (gadawodd am 15:04) |
| Y Cyng. Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint (gadawodd am 16.10) |
| Y Cyng. Ken Taylor | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Y Prif Swyddog Tân |
| Stewart Forshaw | Y Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Richard Fairhead | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Stuart Millington | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Anthony Jones | Rheolwr Ardal |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Nick Selwyn | Archwilio Cymru |
| Euros Lake | Archwilio Cymru |
| George Jones | Atebol - Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwy-ydd Gweithredol |
| Louisa Phillips | Rheolwr Newid M365 |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Rondo Roberts | Cyngor Sir Wrecsam |
| Y Cyng. Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|

**2 DATGANIADAU BUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau buddiant i'w cofnodi.

## 3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd hysbysiad o faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 29 GORFFENNAF 2022

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2022 i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod cywir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

## 5 MATERION YN CODI

5.1 O ran eitem 6 – yr adroddiad a roddodd drosolwg o'r Adolygiad Thematig o gapasiti'r Gwasanaethau Tân ac Achub i roi rôl ehangach i ddiffoddwyr tân yng Nghymru – anfonwyd llythyr at y Dirprwy Weinidog, Hannah Blythin, a chyfarfu'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân â hi wedi hynny. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, rhyddhaodd y Dirprwy Weinidog ddatganiad llafar yn gofyn i'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA) yng Nghymru gyflwyno eu cynlluniau, i fynd i'r afael â'r argymhellion yn y ddau adolygiad thematig i'r capasiti ar gyfer ehangu'r rôl ac ar gyfer hyfforddiant. Dyna wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn dilyn hynny. Ers hynny rydym wedi derbyn llythyr yn diolch i'r Gwasanaeth am ei ymdrechion.

## 6. ARCHWILIO CYMRU – LLEIHAU LARYMAU TÂN

6.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Docx adroddiad Lleihau Larymau Tân a oedd yn cyflwyno'r Aelodau i Gylch Gorchwyl yr adolygiad thematig sy'n cael ei gynnal gan Archwilio Cymru eleni.

6.2 Cafwyd cyflwyniad gan gynrychiolwyr o Archwilio Cymru yn rhoi trosolwg cyffredinol o rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru, a'r sail resymegol i'w hadolygiad thematig ar leihau galwadau diangen/ffug.

6.3 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi pwrpas yr adolygiad;**
**(ii) nodi'r prif gwestiynau y mae'r adolygiad yn ceisio'u hateb; a**
**(iii) nodi'r amserlenni ar gyfer yr adolygiad.**

## 7. ADRODDIAD BIOAMRYWIAETH

7.1 Cyflwynodd AM Jones yr Adroddiad Bioamrywiaeth a oedd yn trafod cydymffurfiaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ag adran 6, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Roedd hefyd yn rhoi gwybodaeth am gynllunio ac adrodd ar weithredu arfaethedig yn y dyfodol gan yr Awdurdod mewn perthynas â gwella bioamrywiaeth o fewn ei ystâd.

7.2 **PENDERFYNWYD:**

**(i) cymeradwyo cynnwys Adroddiad a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2022, i'w ymgorffori mewn cyhoeddiad ar wefan yr Awdurdod cyn diwedd mis Rhagfyr 2022.**

**8. YMCHWILIAD ARENA MANCEINION – ADRODDIAD AR LAFAR**

8.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Millington gyflwyniad llafar ar Ymchwiliad Arena Manceinion, lle roedd yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am gefndir yr ymchwiliad i'r digwyddiadau yn dilyn y ffrwydrad bom yng nghyngerdd Arianne Grande ym mis Mai 2017 lle bu 22 farw. Yn fuan wedi'r ymosodiad, gorchmynnodd Maer Manceinion y dylid cynnal Adolygiad Annibynnol ac ym mis Mawrth 2018, cyhoeddwyd adroddiad Kerslake a oedd yn gwneud 20 o argymhellion.

8.2 Cafodd ymchwiliad cyhoeddus dilynol ei orchymyn gyda chyfrol gyntaf adroddiad yr ymchwiliad yn cael ei ryddhau yn 2021, a'r ail gyfrol eleni. Roedd yr ail gyfrol yn canolbwyntio ar ymateb y gwasanaethau brys. Roedd hyn yn cynnwys 109 o argymhellion, gyda 21 o'r rhain yn cael eu monitro.

8.3 Bydd y Gwasanaeth yn gweithio drwy'r argymhellion ac fe fydd, ymhen amser, yn adrodd yn ôl i'r Awdurdod Tân ac Achub am unrhyw gamau y dylid eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion perthnasol.

8.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys y diweddariad llafar.**

**9. ADOLYGIAD THEMATIG Y PRIF YMGYNGHORYDD TÂN AC ACHUB I HYFFORDDIANT GWEITHREDOL – ADRODDIAD AR LAFAR**

9.1 Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân Forshaw gyflwyniad llafar ar Adolygiad Thematig y Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub i Hyfforddiant Gweithredol.

9.2 Y meysydd allweddol dan sylw yn yr adolygiad hwn oedd darparu hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant cynnal ar: ddefnyddio offer anadlu; gofalu am anafusion; rheoli a meistroli; deunyddiau peryglus; pympiau, clymau, ysgolion a llinellau; hyfforddiant gwrthdrawiadau ar y ffordd; gweithio'n ddiogel ar uchder; a digwyddiadau dŵr. Edrychwyd hefyd ar y cyfleusterau darparu hyfforddiant, gan gynnwys lleoliad daearyddol y canolfannau hyfforddi.

9.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys y diweddariad llafar.**

**10 CYBER ESSENTIALS (CE) / CYBER ESSENTIALS+ (CE+)**

10.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Fairhead adroddiad Cyber Essentials (CE) / Cyber Essentials+ (CE+) a oedd yn hysbysu Aelodau'r Awdurdod am y gwaith yr oedd y gwasanaeth wrthi'n ei wneud o ran seiberddiogelwch.

10.2 Gofynnwyd i'r aelodau nodi mai un rhan o'r sail resymegol dros beidio â dilyn y cymhwyster CE+ ar hyn o bryd oedd arbed ar y gost o gyflogi rhywun yn benodol i oruchwylio'r gwaith hwn. Awgrymodd un Aelod y gallai defnyddio contractwyr yn hytrach na chyflogi adnodd pwrpasol fod yn ffordd o arbed arian yn y maes hwn.

**10.3 PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaeth ar seiberddiogelwch, gan gynnwys bod y Gwasanaeth yn gweithio tuag at ardystiad CE yn y lle cyntaf.**

**11 MONITRO PERFFORMIAD 2022/23: CHWARTERI 1 A 2**

11.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân Forshaw adroddiad Monitro Perfformiad 2022/23: Chwarteri 1 a 2 a oedd yn darparu gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2022/23; perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod; a gweithgarwch digwyddiadau nodedig eraill.

**11.2 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad**

**12 ADOLYGIAD O AMCANION GWELLA A LLESIANT YNG NGHYNLLUN CORFFORAETHOL 2021-24 YR AWDURDOD**

12.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân Forshaw yr adroddiad ar yr Adolygiad o Amcanion Gwella a Llesiant yng Nghynllun Corfforaethol 2021-24 yr Awdurdod, a oedd yn cyflwyno i'r Aelodau amcanion tymor hir yr Awdurdod sydd yn ei Gynllun Corfforaethol 2021-24.

**12.2 PENDERFYNWYD:**

**i) cadarnhau bwriad yr Awdurdod i barhau ar drywydd ei saith amcan hirdymor presennol yn 2023/24; a**

**ii) gofyn bod Swyddogion yn paratoi fersiwn wedi'i ddiweddaru o Gynllun Corfforaethol 2021-24 i'w gymeradwyo ym mis Ebrill 2023.**

## 13 STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2023/26 A CHYLLIDEB 2023/24

13.1 Cyflwynodd y Trysorydd adroddiad Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023/26 a Chyllideb 2023/24 i'r Aelodau a oedd yn cyflwyno Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2023/26 iddynt a'r cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer 2023/24. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi'r risgiau a'r ansicrwydd sylweddol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd.

13.2 Eglurwyd nad oedd gofyn i'r Aelodau gymeradwyo'r gyllideb heddiw, dim ond ei chadarnhau ac argymell ei chymeradwyo yng nghyfarfod llawn yr Awdurdod ar 16 Ionawr 2023.

13.3 Cafodd y ffigurau o fewn yr adroddiad eu crynhoi i'r Aelodau drwy gyflwyniad ar y sgrin. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod llawer o'r codiadau yn anochel ac y tu hwnt i reolaeth y Gwasanaeth oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol. Nodwyd hefyd bod llawer yn ymwneud â blaenoriaethau'r Gwasanaeth yr oedd rhwymedigaeth gyfreithiol arno i'w cyflawni. Mynegodd aelodau eu pryder am y cynnydd sylweddol o ran ardoll i'w cynghorau cyfansoddol, yn sgil y ffaith bod Awdurdodau Lleol eisoes yn ei chael yn cael trafferthion gyda'u cyllid eu hunain.

13.4 Nodwyd bod y papur hwn wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio y bore yma a'u bod wedi pleidleisio i newid yr argymhellion a nodi cynnwys yr adroddiad yn unig. Byddai cyfarfod arbennig yn cael ei gynnal cyn cyfarfod Llawn yr Awdurdod Tân ym mis Ionawr er mwyn trafod y cynnwys yn fanylach.

13.5 Atgoffwyd yr Aelodau bod Adolygiad Gofal Tân yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a phe baent yn dymuno gwneud arbedion sylweddol, y byddai angen eu hystyried yn dilyn yr adolygiad hwn, a bwydo'r arbedion hynny yn ôl yn ystod y broses o osod cyllideb ar gyfer 2024/25.

**13.6 PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r cyllidebau cyfalaf a refeniw ar gyfer 2023/24 yn seiliedig ar gynnydd o £5.32m mewn cyfraniadau gan awdurdodau cyfansoddol;**

**(ii) nodi'r ansicrwydd a'r risgiau allweddol a nodwyd yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb; a**

**(iii) nodi'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.**

## 14. CANOLFAN HYFFORDDI NEWYDD

14.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân Forshaw adroddiad ar y Ganolfan Hyfforddi Newydd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y gwaith a wnaed hyd yma ar greu achos busnes manwl dros yr opsiwn/opsiynau o gael canolfan hyfforddi a datblygu newydd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

14.2 Cydnabuwyd pwysigrwydd cael cyfleuster hyfforddi priodol, effeithiol ac addas i'r diben er mwyn sicrhau bod diffoddwyr tân yn cael yr hyfforddiant gorau posibl. Ond mynegwyd pryderon am y cyfraniad y byddai hyn yn ei wneud o ran y cynnydd yn y gyllideb, a'r cynnydd dilynol yn yr ardoll i Awdurdodau Lleol.

14.3 Cynigiwyd gohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf, yn dilyn y cynigion ar gyfer y gyllideb. Cafodd hyn ei eilio a chariwyd y bleidlais yn unfrydol.

**14.4 PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r cefndir i'r adolygiad o'r ddarpariaeth hyfforddiant, gan gynnwys adolygiad thematig Prif Ymgynghorydd Tân Cymru;**

**(ii) nodi bod y ddarpariaeth hyfforddiant bresennol yn cyrraedd diwedd ei hoes;**

**(iii) nodi'r amserlenni a nodir yn yr adroddiad hwn ar gyfer darparu achos busnes manwl i'w ystyried gan yr Aelodau.**

**15 MATERION BRYS**

15.1 Nid oedd materion brys i'w codi.

Ar ddiwedd Rhan I o'r agenda, daeth recordiad y cyfarfod i ben a chytunwyd i symud i Ran II o'r cyfarfod.

**16. GWEITHREDU DIWYDIANNOL (AR LAFAR)**

16.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân adroddiad ar lafar a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch y trafodaethau am gyflog ar lefel genedlaethol, y potensial ar gyfer gweithredu diwydiannol a'r trefniadau parhad busnes sy'n cael eu rhoi ar waith.

16.2 Roedd papur Rhan II eisoes wedi cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn amlinellu'r cynnig cyflog o 2% i ddiffoddwyr tân a staff ystafell reoli, a oedd wedi cael ei wrthod.

16.3 Roedd Undeb y Brigadau Tân (FBU) wedi argymell bod eu haelodau'n gwrthod y cynnig uwch dilynol o 5% heb unrhyw amodau ynghlwm, a dyna a wnaethant. Cafodd pleidlais dros Weithredu Diwydiannol ei dechrau gyda'r dyddiad cau ar ddiwedd mis Ionawr 2023. Yn anffodus, nid oedd yr FBU wedi nodi pa ganran y byddai'n ei derbyn ac felly nid oes modd dweud pa mor bell ohoni yw'r cynnig.

16.4 Nodwyd nad oes unrhyw reolau yng Nghymru o ran y ganran o bleidleisiau sy'n ofynnol ar gyfer Gweithredu Diwydiannol fel sydd yn Lloegr, ac felly roedd y Gwasanaeth yn disgwyl i streic fynd rhagddi.

16.5 Atgoffwyd yr Aelodau fod y Gwasanaeth yn gaeth i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 a'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub o ran parhau i ddarparu gwasanaethau pe bai streic yn digwydd. Cafodd y gofynion hyn eu crynhoi.

16.6 Roedd gofyn i'r Gwasanaeth gynllunio yn unol â hynny fel nad oedd modd ei feirniadu am beidio â chynnal darpariaeth y gwasanaeth yn ystod unrhyw gyfnod o streic.

16.7 Y camau gweithredu posib oedd ar gael i aelodau'r FBU oedd: gweithredu heb fod yn streicio a fyddai'n golygu y byddai diffoddwyr tân yn gwrthod ymgymryd ag unrhyw waith goramser; streicio bylchog am gyfnodau o dair neu bedair awr neu shifftiau cyfan; neu streicio parhaus. Roedd cynlluniau ar y gweill ar gyfer yr holl opsiynau hyn.

16.8 Cafodd y rhai oedd yn bresennol wybod bod nifer fawr o swyddogion, diffoddwyr tân a gweithwyr o'r ystafell reoli yn aelodau o'r FBU ac felly y byddai disgwyl iddyn nhw gydymffurfio â chanlyniad y bleidlais. Byddai unrhyw uwch swyddogion nad ydynt yn cymryd rhan yn y streic yn ymgymryd â hyfforddiant diweddaru tua dechrau'r Flwyddyn Newydd. Roedd cynlluniau hefyd yn cael eu rhoi ar waith i aelodau nad ydynt yn aelodau o'r FBU gael eu hyfforddi i weithio yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol.

16.9 Roedd y Gwasanaeth yn ystyried y lleoedd gorau yn ddaearyddol i osod peiriannau cyflenwi a pha fathau o ddigwyddiadau y byddai'r Gwasanaeth yn mynd atyn nhw pe bai'r streic yn digwydd. Mae'n debygol na fydden nhw'n ymateb i danau bin a thanau eilaidd bach ond bydden nhw'n mynd i ddigwyddiadau lle ceir bygythiad i fywyd a gwrthdrawiadau ar y ffyrdd. Ystyriwyd hefyd wrth gynllunio mai mis Chwefror yw dechrau'r tymor llosgi dan reolaeth ac felly gallai hyn achosi problem bosibl.

16.10 Efallai bod yr aelodau wedi clywed bod Gwasanaethau Tân eraill yn hysbysebu am staff criw cyflenwi; fodd bynnag, ar ôl ystyried hyn roedd yr opsiwn wedi'i ddiystyru gan ei fod yn dod â chost sylweddol ac yn darparu fawr ddim o ran cyflenwi oherwydd yr heriau'n ymwneud â'u hyfforddi i wneud unrhyw beth heblaw diffodd tân yn amddiffynnol y tu allan i adeiladau.

16.11 Bu'r Gwasanaeth yn trafod gyda'r fyddin y posibilrwydd o gael cymorth ond, ar hyn o bryd, mae wedi penderfynu peidio â chyflwyno cais am Gymorth Milwrol i Awdurdodau Sifil (MACA). Eto, mae hynny'n rhannol oherwydd y gost, sef tua £4,000 y milwr yr wythnos, a'r un pryderon ynghylch diffyg amser i ddarparu hyfforddiant perthnasol. Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai'r fyddin yn opsiwn fforddiadwy ni fyddai sicrwydd y byddai ganddi'r capasiti i helpu.

16.12 Gofynnwyd pam nad oedd y fyddin yn codi cost ffiniol fel yr oedd wedi gwneud ar achlysuron blaenorol. Yr ateb oedd na fyddai'n gwneud hynny am nad oedd hwn yn argyfwng cenedlaethol. Roedd y posibilrwydd o ofyn i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei dylanwad i fynnu costau ffiniol yn cael ei ystyried oherwydd gallai hwn fod yn opsiwn mwy ymarferol.

16.12 Yn bwysicaf oll, roedd y Gwasanaeth yn parhau i weithio gyda swyddogion lleol yr FBU er mwyn cynnal diwylliant o barchu ein gilydd a chydweithredu. Roedd y Gwasanaeth hefyd yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddiweddaru'r Awdurdod Tân ar bob cyfle.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.30 o'r gloch.